OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 304

## Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2019

**Anfon hysbysiadau ac edrych ar ddogfennau**

**27.**—(1) Caniateir anfon hysbysiadau neu ddogfennau y mae'n ofynnol eu hanfon neu yr awdurdodir eu hanfon o dan y Rheoliadau hyn—

(a) drwy'r post; neu

(b) drwy ddefnyddio cyfathrebiadau electronig i anfon neu gyflenwi'r hysbysiad neu'r ddogfen i berson yn y cyfeiriad hwnnw a bennir am y tro gan y person at y diben hwnnw.

(2) Pan fo rhwymedigaeth ar awdurdod cynllunio perthnasol neu, yn ôl y digwydd, awdurdod â buddiant, i roi cyfle i unrhyw berson sy'n gofyn am hynny edrych ar unrhyw ddogfen a chymryd copïau o unrhyw ddogfen, tybir bod cyfle wedi ei roi i berson pan fo'r person yn cael ei hysbysu am—

(a) cyhoeddi'r ddogfen berthnasol ar wefan;

(b) cyfeiriad y wefan; ac

(c) ymhle ar y wefan y gellir cyrchu'r ddogfen, a sut y gellir ei chyrchu.